



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Gyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG**

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn â Chyngor Sir Powys

Mae Sir Powys yn sir wledig, fawr yng Nghanolbarth Cymru â phoblogaeth o 132,515. Mae'n cwmpasu chwarter o arwynebedd Cymru ac mae'n un o'r siroedd mwyaf, ond lleiaf poblog, yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 95 o ysgolion. Ceir un ysgol pob oed ar gyfer disgyblion 3 i 16 oed yn yr awdurdod. Mae 80 o ysgolion cynradd, gan gynnwys * sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Ceir 11 o ysgolion uwchradd, ac nid yw'r un ohonynt wedi'u categorio'n ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae 6 o'r ysgolion uwchradd hyn yn ysgolion â dwy ffrwd iaith. Yn ogystal, ceir tair o ysgolion arbennig ac uned cyfeirio disgyblion.

Ymgwymerodd y Prif Weithredwr â'i swydd yn Chwefror 2019 a phenodwyd y Pennaeth Addysg ym Medi 2018. Mae Arweinydd y Cyngor wedi bod yn y rôl ers Mai 2017 ac mae'r aelod etholedig sydd â rôl arweiniol y cabinet ar gyfer gwasanaethau addysg wedi dal y swydd ers Mai 2017. Ym Mawrth 2011 y cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r awdurdod lleol.

Mae Powys yn un o chwe awdurdod lleol yn rhanbarth Consortiwm ERW, sy'n darparu'r gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer yr awdurdod lleol.

Yn 2019-2020, cyllideb addysg net y Cyngor yw oddeutu £95 miliwn. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yw £4,945, sef y 9^{fed} uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Cyfartaledd y gyllideb ysgolion fesul disgybl yng Nghymru yw £4,776 y disgybl.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Nodir rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc ym Mhowys isod:

- Dros gyfartaledd o dair blynedd, mae 11 % o ddisgyblion pump i bymtheg oed yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 17.9%
- Mae 12 % o ddisgyblion pump oed a hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 16.2%
- Daw 3.1% o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 11.0%
- Mae gan 19.6 % o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 22.6%
- Roedd 97 o blant fesul 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn 2018, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 102 o blant fesul 10,000

Crynodeb

Mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir ynglŷn â sut i wella gwasanaethau addysg ym Mhowys. Mae'r Cabinet a'r pwyllgor craffu dysgu a medrau, ynghyd ag uwch swyddogion, yn dechrau gwella trylwyrdeb a lefel y craffu a'r her ar draws yr holl wasanaethau. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith ddigonol eto ar faterion allweddol o fewn y gwasanaethau addysg y mae'r awdurdod wedi'i chael hi'n anodd eu gwella dros nifer o flynyddoedd. Mae llawer o'r materion hyn yn feysydd pryder sylweddol. Er bod dealltwriaeth fras gan uwch arweinwyr o'r cryfderau a meysydd i'w datblygu mewn addysg, mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn wan. O ganlyniad, araf yn gyffredinol yw'r cynnydd.

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn ysgolion Powys yn gwneud cynnydd cadarn. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cynnal y cynnydd da y maent yn ei gyflawni mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd. Yn benodol, mae perfformiad disgyblion mwy abl yn rhy anghyson ar draws ysgolion uwchradd. Mae ychydig o ysgolion uwchradd yn perfformio'n gryf, tra bod perfformiad yn wan mewn llawer o ysgolion eraill.

Yn gyffredinol, mae'r awdurdod lleol yn adnabod ei ysgolion yn dda, ac ar y cyfan, mae wedi cryfhau'r modd y mae'n herio perfformiad ysgolion ac yn eu cynorthwyo i wella. Er enghraifft, mae'r ymagwedd Tîm o Amgylch yr Ysgol yn ffordd ddefnyddiol i ysgolion gael cymorth a her addas gan yr awdurdod lleol a'i ymgynghorwyr her. Ceir mentrau buddiol diweddar i wella'r cymorth i arweinwyr ysgolion, fel trwy fentora penaethiaid newydd a'r defnydd diweddar o lywodraethwyr 'eiriol'.

Fodd bynnag, mae llawer o feysydd gwaith yr awdurdod sy'n peri pryder sylweddol, fel y rhai'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion, rheolaeth ariannol, llywodraethu ysgolion, diffyg gweithredu mewn perthynas ag ysgolion sy'n achosi pryder a chydlynu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig neu y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r materion hyn yn effeithio ar arweinyddiaeth ysgolion, strwythurau staffio, cynllunio'r cwricwlwm a morâl staff, sydd yn eu tro yn cyfyngu ar effaith ymgynghorwyr her a staff eraill gwella ysgolion.

Argymhellion

- A1 Gwella safonau mewn ysgolion uwchradd, ac yn enwedig perfformiad dysgwyr mwy abl
- A2 Gwella gwerthuso, cynllunio a chydlynu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion eraill y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt
- A3 Gwella cysondeb ac effaith uwch arweinwyr wrth wella ansawdd gwasanaethau addysg a pharhau i gryfhau'r trylwyrdeb, y craffu a'r her mewn perthynas â pherfformiad gwasanaethau'r awdurdod
- A4 Sicrhau bod trefniadaeth y ddarpariaeth ar gyfer addysg nas cynhelir, addysg ôl-16, addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg uwchradd yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc Powys
- A5 Parhau i wella ansawdd rheolaeth ariannol mewn ysgolion a chymryd camau priodol i fynd i'r afael ag ysgolion â diffyg sylweddol yn eu cyllidebau

Beth sy'n digwydd nesaf

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol Powys yn peri pryder sylweddol ac angen gweithgarwch dilynol. Bydd yr awdurdod lleol yn diweddarau ei gynlluniau gwella i ddangos y modd y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr awdurdod trwy gynhadledd wella ôl-arolygiad a chynadleddau cynnydd. Bydd ymweliad monitro yn dilyn y gynhadledd cynnydd olaf er mwyn ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi mynd i'r afael a phob un o'r argymhellion, a faint o gynydd mae wedi'i wneud yn gyffredinol.

Prif ganfyddiadau

Deilliannau

Ym Mhowys, mae deilliannau arolygu yn dangos bod disgyblion, yn gyffredinol, yn gwneud cynnydd cadarn dros eu cyfnod mewn addysg statudol. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cynnal y cynnydd da y maent yn ei gyflawni mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd. Mae perfformiad disgyblion o ran dangosyddion pwysig sy'n ystyried ystod o gymwysterau, fel y sgôr pwyntiau wedi'i chapio a chyfran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A*-A, wedi amrywio gryn dipyn ar draws ysgolion uwchradd.

Mae'r sampl o ysgolion uwchradd a arolygwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf yn fach ac felly mae'n anodd llunio cymariaethau ystyrlon o ddeilliannau arolygu. Fodd bynnag, mae'r amser a gymer i ysgolion uwchradd gael eu tynnu o gategoriâu statudol yn gymharol faeth. Yn ogystal, ar ôl iddynt gael eu tynnu o gategori statudol, nid yw ysgolion uwchradd yn cynnal cynnydd yn gyffredinol.

Mae deilliannau o adroddiadau arolygu Estyn mewn lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir yn dangos bod lles y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae presenoldeb disgyblion yn dda mewn ysgolion cynradd, ac yn cymharu'n dda â lefelau mewn awdurdodau lleol tebyg. Er bod presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn cymharu'n ffafriol â lefelau yng Nghymru ac awdurdodau lleol tebyg, mae bron i hanner yr ysgolion uwchradd wedi bod yn y 25% gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae dysgwyr agored i niwed, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn perfformio yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer eu cyfoedion ledled Cymru, fwy neu lai.

Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol o ysgolion uwchradd yn uchel o gymharu â lefelau mewn awdurdodau lleol tebyg. Mae cyfanswm nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf, ac er ei fod wedi gostwng rhwng 2017 a 2018, mae'n rhy uchel o hyd.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i gadw'n weithgar ac iach. Mewn lleoliadau nas cynhelir, mae mentrau'r awdurdod lleol wedi bod yn llwyddiannus o ran cynyddu'r cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae gweithredol. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae disgyblion yn elwa ar yr ystod eang o weithgareddau corfforol sy'n cael eu hyrwyddo drwy'r cynllun llysgenhadon ifanc. Mae disgyblion sy'n llysgenhadon ifanc yn cymryd cyfrifoldeb am fynd ati'n rheolaidd i werthuso'r ystod o weithgareddau sydd ar gael yn eu hysgolion, gyda chymorth gan swyddogion chwaraeon awdurdod lleol. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i wella'r ddarpariaeth ac maent yn cymryd cyfrifoldeb dros arwain y gweithgareddau hyn yn rheolaidd. Mae gwerthusiadau'r awdurdod lleol yn dangos bod y gweithgareddau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar faint o weithgarwch corfforol y mae disgyblion yn ei wneud mewn ysgolion, ac maent yn datblygu medrau cymdeithasol a medrau arwain y llysgenhadon ifanc yn llwyddiannus.

Mae gan yr awdurdod lleol ystod eang o strategaethau i gynorthwyo disgyblion i wella'u hiechyd meddwl a'u hiechyd emosiynol. Mae dadansoddiad yr awdurdod lleol o'r gwasanaeth cwnsela ar-lein, sy'n cynnwys cymorth a chynghor y tu allan i'r ysgol hefyd, yn dangos bod disgyblion â materion fel iselder, gorbryder a hunan-niweidio wedi elwa ar y cymorth. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid oes ymagwedd strategol, glir ar gyfer datblygu iechyd meddwl ac iechyd emosiynol disgyblion ar draws yr awdurdod lleol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfran y rhai ym Mlwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) wedi aros yn isel ac mae wedi parhau i ostwng ar gyfradd debyg i gyfartaledd Cymru. Mae pobl ifanc yn elwa ar gymorth pwrpasol effeithiol gan y gwasanaeth ieuencid er mwyn delio â'u hanghenion unigol.

Ceir cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion rannu'u barnau fel rhan o Fforwm Ieuencid Powys a 'diwrnodau dweud eich dweud', ond tystiolaeth gyfyngedig sydd o'r modd y mae swyddogion yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwelliannau neu werthuso unrhyw fentrau sy'n cael eu rhoi ar waith. Yn gyffredinol, nid yw cyfraniadau disgyblion at gyfeiriad strategol materion addysg yr awdurdod lleol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Gwasanaethau addysg

O dan Maes Arolygu 2, mae Estyn yn gosod cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n ymwneud â blaenoriaethau strategol presennol yr awdurdod lleol neu'n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn herio perfformiad ysgolion ac yn eu cynorthwyo i wella?

At ei gilydd, mae'r awdurdod lleol yn adnabod ei ysgolion yn dda. Tynnwyd sylw at faterion pwysig yn ystod arolygiadau mewn ychydig o ysgolion dros y tair blynedd diwethaf, ac nid oedd yr awdurdod lleol yn ddigon ymwybodol ohonynt. Adolygodd yr awdurdod pam y digwyddodd hyn, a chymerodd gamau addas i adeiladu capasiti ei dîm ymgynghorwyr her a thynhau'r trefniadau sicrhau ansawdd o ran eu gwaith. Er enghraifft, ychwanegodd yr awdurdod lleol gapasiti at ei dîm ymgynghorwyr her yn ddiweddar i ddarparu her a chymorth addas i ysgolion arbennig. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r holl arolygiadau wedi dangos bod yr awdurdod lleol yn ymwybodol o brif gryfderau'r ysgolion a'u meysydd i'w gwella.

Mae tîm ymgynghorwyr her yr awdurdod lleol yn darparu her a chymorth buddiol i ysgolion. Maent yn gweithio'n dda gydag ysgolion i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r ymgynghorwyr her yn cytuno ar gymorth addas i ysgolion er mwyn helpu mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, gan fanteisio'n briodol ar staff yr awdurdod lleol, staff sy'n gweithio i'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol (ERW) ac uwch arweinwyr o ysgolion i ddarparu'r cymorth hwn. Mae'r her a'r cymorth hwn wedi cyfrannu at welliannau mewn darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn ysgolion, a deilliannau ar gyfer dysgwyr. Mae cyfran yr ysgolion y nodwyd bod angen cymorth sylweddol arnynt wedi lleihau o ryw hanner yr ysgolion yn 2015 i ryw chwarter o'r ysgolion ar hyn o bryd.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae ymgynghorwyr her wedi gwella eu gwybodaeth am arfer ragorol mewn ysgolion. Maent yn rhannu hon yn dda, ac yn datblygu diwylliant o gymorth rhwng ysgolion ar draws ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi gwella'r ffordd y maent yn rhannu gwybodaeth am ysgolion unigol. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae cyfarfodydd buddiol y Tîm o Amgylch yr Ysgol yn arbennig wedi helpu sicrhau bod ymgynghorwyr her a rheolwyr gwasanaethau i gyd yn ymwybodol o faterion pwysig fel perfformiad ysgolion, diogelu, llywodraethu ysgolion, cwynion, cyllid ysgolion, trefniadaeth ysgolion ac adnoddau dynol. Mae hyn wedi helpu ymgynghorwyr her i ystyried materion perthnasol wrth herio ysgolion a chytuno ar gymorth.

Mae systemau adeiladol ar waith gan yr awdurdod lleol i fonitro ysgolion y nodwyd eu bod yn peri pryder. Mae hyn yn cynnwys byrddau gwella ysgolion rheolaidd ar gyfer yr ysgolion sy'n peri'r pryder mwyaf, yn cynnwys uwch swyddogion o'r awdurdod lleol, uwch arweinwyr ysgolion ac eraill sy'n gysylltiedig â chynorthwyo'r ysgol. Ers 2018, mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno hysbysiadau rhybuddio addas i ychydig iawn o ysgolion sy'n peri pryder sylweddol. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol wedi bod yn araf i fynd i'r afael â materion mewn ysgolion sydd wedi methu bodloni gofynion hysbysiad rhybuddio.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r her a'r cymorth a ddarparwyd i ysgolion cynradd wedi cael mwy o effaith na hynny a ddarparwyd i ysgolion uwchradd neu ysgolion arbennig. Mae dau reswm am hyn yn bennaf. Yn gyntaf, bu gwendidau hanesyddol yng nghapasiti'r awdurdod i herio a chynorthwyo ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig, ac aethpwyd i'r afael â'r rhain yn gyffredinol dros y ddwy flynedd diwethaf. Yn ail, bu gwendidau ers tro byd yn arweinyddiaeth strategol uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn yr awdurdod lleol. Yn benodol, ceir gwendidau'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion, rheolaeth ariannol, llywodraethu ysgolion, diffyg gweithredu mewn perthynas ag ysgolion sy'n peri pryder a chydlynu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r materion hyn yn effeithio ar arweinyddiaeth ysgolion, strwythurau staffio, cynllunio'r cwricwlwm a morâl staff, sydd yn eu tro yn cyfyngu'r effaith a gaiff ymgynghorwyr her a staff eraill gwella ysgolion.

Pa mor effeithiol y mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo arweinyddiaeth gref yn ei ysgolion?

Mae ymgynghorwyr her yn cynorthwyo arweinwyr ysgol yn dda, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Maent yn nodi arweinwyr sydd â chryfderau penodol, er enghraifft, mewn prosesau gwerthuso ysgolion, ac maent yn defnyddio'r arweinwyr hyn i gynorthwyo ysgolion eraill lle mae'r prosesau hyn yn wannach. Maent yn cynorthwyo rheoli perfformiad uwch arweinwyr yn briodol ac, er enghraifft, yn hyrwyddo cyswllt gwell rhwng yr amcanion a bennwyd ar gyfer penaethiaid a blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Yn gyffredinol, bu gostyngiad yn nifer yr ysgolion y mae angen eu monitro yn dilyn arolygiad gan Estyn. Ers arolygiad diwethaf yr awdurdod, mae barnau ar gyfer ansawdd arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd wedi cymharu'n dda, neu'n well, â'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae barnau ynglŷn ag arweinyddiaeth mewn ysgolion uwchradd yn wannach, gyda mwy o farnau digonol ac anfoddhaol o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dros gyfnod, mae'r awdurdod lleol wedi cael anawsterau yn recriwtio penaethiaid addas, yn enwedig ar gyfer ei ysgolion uwchradd. O ganlyniad, nid oes penaethiaid parhaol gan ychydig o ysgolion cynradd a lleiafrif o ysgolion uwchradd. Mae ymgynghorwyr her yn cydnabod yr angen i nodi arweinwyr potensial a chynorthwyo'r unigolion hyn wrth iddynt symud ymlaen drwy eu gyrfaoedd. Mae'r awdurdod lleol yn dechrau gweld effaith y gwaith hwn, er enghraifft, gydag athrawon sydd wedi gweithio mewn ysgolion lleol sy'n ymgymryd ag uwch rolau arwain. Ceir nifer o bennaethiaid newydd mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae swyddogion yn sicrhau bod yr holl bennaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro yn cael cymorth gan bennaeth mentora profiadol.

Mae tîm adnoddau dynol a thîm cyllid yr awdurdod lleol yn darparu cymorth gwerthfawr i ysgolion, gan gynnwys pan fydd perfformiad athrawon neu arweinwyr yn peri pryder. Er mwyn ymateb i'r nifer gynyddol o ysgolion sy'n cael eu ffedereiddio, mae swyddogion wedi datblygu canllawiau defnyddiol i gynorthwyo arweinwyr ysgol drwy'r broses hon. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau o arfer lwyddiannus wrth arwain mwy nag un ysgol.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cyfleoedd buddiol i staff ysgolion ddatblygu medrau arweinyddiaeth, gan gynnwys trwy raglenni a gynigir ar y cyd â'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol. Mae ymgynghorwyr her yn herio staff ysgolion ar bob lefel i ymgysylltu â rhaglenni arweinyddiaeth. Fe wnaeth swyddogion gydnabod yr angen am fwy o ffocws ar wella medrau arweinwyr canol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, ac o ganlyniad, fe wnaeth nifer yr athrawon sy'n cyfranogi mewn rhaglenni ar gyfer arweinwyr canol gynyddu yn 2018-2019. Mae'r awdurdod lleol yn cyflogi tîm bach o hyfforddwyr i ddarparu cyfleoedd yn lleol i gynorthwyo'r addysgu i gyflawni statws cynorthwydd addysgu lefel uwch.

Ers Medi 2018, mae tîm arweinyddiaeth y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol wedi gweithio gydag ysgolion uwchradd dynodedig i ddarparu cymorth mwy pwrpasol i dimau arweinyddiaeth. Mae aelodau'r tîm gwella uwchradd sydd â phrofiad diweddar o arwain ysgolion yn cysylltu â'r ysgolion uwchradd y mae angen cymorth arnynt, er enghraifft, i ddatblygu medrau arweinwyr canol. Mae staff o'r ysgolion sy'n cael eu cynorthwyo drwy'r gwaith hwn yn cael cyfleoedd i ymweld ag ysgolion eraill er mwyn gwella eu medrau. Er bod y gwaith hwn yn gymharol newydd, ceir tystiolaeth ei fod yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar athrawon yn yr ysgolion dynodedig. Er enghraifft, mae'r gwaith hwn yn gwella eu medrau mewn dadansoddi data perfformiad disgyblion ac mewn monitro a gwerthuso gwaith eu timau.

Mae'r uned cymorth llywodraethwyr yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar ystod dda o agweddau ar lywodraethu ysgolion, gan gynnwys cyllid ysgolion a rheoli perfformiad penaethiaid. Fodd bynnag, nid oes presenoldeb da ar lawer o'r cyrsiau hyn. Yn fwy diweddar, mae swyddogion wedi dechrau meddwl am ffyrdd amgen o gael llywodraethwyr i ymgysylltu, er enghraifft, trwy fodiwlau e-ddysgu. Mae'r awdurdod lleol wedi ffurfioli'i ymagwedd at ddefnyddio llywodraethwyr 'eiriol' yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae'r llywodraethwyr hyn yn meddu ar fedrau ac arbenigedd penodol ac maent yn defnyddio hyn i gryfhau cyrff llywodraethol y mae angen cymorth arnynt. Mae ymgynghorwyr her yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer cyrff llywodraethol mewn ysgolion sydd yn y categori coch neu oren. Dros gyfnod, fodd bynnag, mae cymorth i hyrwyddo llywodraethu effeithiol wedi bod yn wan. Nid yw aelodau cyrff llywodraethol wedi dwyn arweinwyr ysgol i gyfrif yn ddigon

cadarn bob amser am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, neu'u sefyllfa ariannol.

Pa mor dda y mae strategaethau'r awdurdod lleol yn bodloni anghenion ei ddisgyblion mwy abl?

Ym Mhowys, darperir ystod addas o gyfleoedd i ddisgyblion mwy abl gyflawni'u potensial academaidd. Mae swyddogion ym Mhowys yn hwyluso rhwydweithiau gwerthfawr ar gyfer disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 4 a'r cyfnod ôl-16, gan gynnwys canolfannau rhanbarthol SEREN¹ a SEREN iau i'r disgyblion hynny y nodwyd bod ganddynt y potensial i fynd ymlaen i brifysgolion gorau'r DU. Mae'r canolfannau SEREN yn cynorthwyo ceisiadau'r disgyblion hyn i brifysgolion Grŵp Russell, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr SEREN yn mynd ymlaen i wneud cais a derbyn cynigion.

Mae'r awdurdod lleol yn trefnu ffair gyrfaeoddedd i'r holl ddysgwyr, a cheir ystod eang o arddangoswyr. Mae hyn yn annog disgyblion mwy abl i ystyried ystod eang o ragolygon addysg, menter a chyflogaeth ymestynnol yn lleol, yn genedlaethol a ledled y DU.

Mae ymgynghorwyr her yn cyfranogi mewn deialog yn briodol gydag arweinwyr ysgolion mewn perthynas â pherfformiad disgyblion mwy abl. Maent yn cynorthwyo i rannu arfer dda ar draws ysgolion cynradd, fel yr 'Awr Athrylith' i hyrwyddo ymholi, ymchwilio, creadigrwydd, a dysgu hunangyfeiriedig. Yn ogystal, maent yn annog ysgolion i weithio ochr yn ochr â darparwyr eraill ledled rhanbarth ERW ar brosiectau cydweithredol er mwyn ysgogi her i ddisgyblion mwy abl. Mae ymgynghorwyr her yn ystyried priodoldeb y cwricwlwm ysgol yng nghyfnod allweddol 4 a'r cyfnod ôl-16, ac o ganlyniad, mae ychydig o ysgolion wedi mabwysiadu modelau amgen a dulliau arloesol o gyflwyno sy'n cyfoethogi'r cynnig ar gyfer disgyblion mwy abl. Mae ymgynghorwyr her yn rhannu canllawiau defnyddiol ac yn hyrwyddo'r Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog, er mwyn sicrhau hunanwerthuso mwy effeithiol o'r ddarpariaeth gyda phob ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth ddigon da i effaith ei ddarpariaeth a'i gymorth ar ddilyniant disgyblion mwy abl a thalentog.

Pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?

Ceir cydlynw, gwerthuso a chynllunio annigonol ar draws yr awdurdod ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt.

Nid yw gweledigaeth yr awdurdod lleol ar gyfer AAA yn cael ei chyfleu'n effeithiol i ysgolion. Mae'r polisi anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn darparu gwybodaeth ddigonol, ond mae'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn unig. Mae dryswch o ran y defnydd o derminoleg ADY. O ganlyniad, mae gwybodaeth yn ddryslyd i ysgolion a rhanddeiliaid, ac mae'n cyfyngu ar eu

¹ Rhaglen Llywodraeth Cymru yw SEREN sydd â'r bwriad o gael myfyrwyr mwy disglair i ymgeisio am leoedd yn y prifysgolion gorau.

dealltwriaeth o'r ystod lawn o gymorth a darpariaeth sydd ar gael ar gyfer amrywiaeth o anghenion disgyblion.

Mae ystod o ddarpariaeth ar gael ar gyfer disgyblion ag ADY ar draws yr awdurdod lleol. Ar hyn o bryd, ceir y ddarpariaeth hon mewn ysgolion y brif ffrwd, canolfannau adnoddau arbenigol, unedau cyfeirio disgyblion (UCD) ac mewn ysgolion arbennig. Mae canolfannau adnoddau arbenigol yn seiliedig ar glwstwr ac maent yn cynnig lleoliadau i ddisgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol neu gyffredinol ar lefel gynradd a lefel uwchradd. Mae'r tair ysgol arbennig yn cynnig lleoliadau i ddisgyblion ag anawsterau dysgu mwy difrifol, ac mae un yn arbenigo mewn heriau ymddygiadol. Fodd bynnag, mae'r mynediad i leoliadau arbenigol yn orgymhleth. Mae'r awdurdod wedi cydnabod y mater hwn, ac maent yn mireinio'r llwybr atgyfeirio ar gyfer ysgolion o Fedi 2019.

Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod yn adolygu ei ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA. Yn benodol, mae'n adolygu'r canolfannau adnoddau arbenigol. Mae'r ymgynghori gyda phenaethiaid ysgolion y brif ffrwd yn anghyson, ac yn arwain at ddiffyg eglurder ynglŷn ag ad-drefnu'r canolfannau adnoddau arbenigol. Cyfyngedig yw'r dadansoddi a wneir ar hyn o bryd o'r data sydd ar gael i'r awdurdod ragfynegi proffil anghenion disgyblion nawr ac yn y dyfodol. O ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod i gynllunio ac addasu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn cynorthwyo'r tair ysgol arbennig a'r unedau cyfeirio disgyblion i ddarparu cymorth allgymorth mwy rhagweithiol i ddisgyblion ag AAA a staff yn ysgolion y brif ffrwd. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol, gan ehangu set medrau staff prif ffrwd a galluogi disgyblion i aros yn eu hysgolion yn y brif ffrwd. Fodd bynnag, cyfyngedig iawn yw'r monitro a gwerthuso parhaus ar ansawdd y cymorth hwn gan swyddogion yr awdurdod lleol.

Mae ystod o swyddogion yn gyfrifol am grwpiau o ddisgyblion y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, disgyblion sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, disgyblion â statws derbyn gofal a'r rheini sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y grwpiau hyn o ddisgyblion yn rhy amrywiol. Ceir anghysonderau yn lefelau monitro ansawdd, dadansoddi data a gwaith cyfyngedig ar draws timau i rannu gwybodaeth. O ganlyniad, collir cyfleoedd i gael trosolwg cynhwysfawr o anghenion disgyblion y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt ar draws yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod i gynllunio adnoddau i gyfateb i anghenion disgyblion yn ddigon effeithlon.

Pa mor effeithiol yw darpariaeth yr awdurdod lleol ar gyfer cymorth ymddygiad?

Mae gan Bowys ystod o ddarpariaeth i gynorthwyo ymddygiad dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys ysgol arbennig ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 5, a thair uned cyfeirio disgyblion (UCD) ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Ceir gweledigaeth ddiffiniedig, set o egwyddorion allweddol a llwybr i gynorthwyo gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol. Rhoddir ffocws hefyd ar ddatblygu prosesau i weithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth ag ysgolion ac i sicrhau ymagwedd fwy cydlynus at ddarparu

gwasanaethau. Mae'r awdurdod lleol wedi adolygu ei brosesau ar gyfer manteisio ar gymorth neu gyngor er mwyn sicrhau eu bod yn hwylus a chyson. Hefyd, mae'r awdurdod wedi adolygu ei bolisi a'i ddarpariaeth mewn perthynas ag ymddygiad yn ddiweddar, gan gynnwys swyddogaethau UCD. Mae wedi nodi'r angen i ddatblygu darpariaeth ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 a gwasanaeth allgymorth i ysgolion. Bydd yr UCD yn cael eu halinio hefyd ar ddau safle o Fedi 2019, gyda'r nod o gydategu'r gwasanaeth allgymorth a gynigir gan yr ysgol arbennig a hwyluso gweithio effeithiol mewn partneriaeth. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y mentrau hyn ar ddysgwyr.

Mae ymagwedd Tîm o Amgylch yr Ysgol yr awdurdod lleol yn darparu cyfle i gynorthwyo datblygu gweithio integredig ar draws timau. Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, y tîm Cynhwysiant a Chymorth Dysgu a'r tîm ymddygiad yn darparu ystod o ymyriadau defnyddiol, ymagweddau ataliol, hyfforddiant a chymorth i ysgolion. Ceir rhywfaint o dystiolaeth o effaith ar lefel dysgwyr unigol, er nad yw'r gwaith o ddadansoddi effaith yn ehangach wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae gwaith gyda'r cynllun Ysgolion Iach wedi cefnogi datblygu strategaethau effeithiol i wella lles disgyblion a lleihau achosion o fwlio mewn ysgolion cynradd trwy raglenni fel KiVa² a'r Blynnyddoedd Rhyfeddol³. Mae'r mwyafrif o ysgolion cynradd wedi hyfforddi eu staff yn y rhaglen KiVa dros y pedair blynedd diwethaf. Mae dadansoddiad yr awdurdod lleol o'r rhaglen hon yn dangos gostyngiadau sylweddol mewn bwlio ac erlid, gyda'r gostyngiadau mwyaf mewn ysgolion lle ceir lefelau uchel o dlodi. Mae'r awdurdod yn deall ei ddyletswydd mewn perthynas â mynd i'r afael a gwahaniaethu, ac mae ganddo system o fonitro digwyddiadau hiliol, er nad oes dull o fonitro achosion o fwlio yn fwy cyffredinol.

Mae'r awdurdod yn hyrwyddo nodi ac ymyrryd yn gynnar er mwyn cynorthwyo ymddygiad disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd. Mae ganddo bolisi clir ar symudiadau rheoledig, ac mae wedi hwyluso symudiadau rheoledig yn briodol. Caiff disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd eu hystyried ar Banel Cynhwysiant Cymdeithasol yr awdurdod lleol er mwyn nodi cymorth. Er bod gwybodaeth anecdotaidd i awgrymu bod cymorth wedi bod yn fuddiol, nid yw gwerthuso ac adrodd manwl a systematig mewn perthynas â gwella ymddygiad a lleihau gwaharddiadau wedi'u datblygu'n ddigonol. At ei gilydd, mae nifer y gwaharddiadau yn parhau'n uchel.

Yn gyffredinol, gwerthuso cyfyngedig a wneir gan yr awdurdod lleol o'i ddarpariaeth ar gyfer cymorth ymddygiad a gwerthuso cynnydd disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod i fesur ei effaith ynglŷn â materion penodol.

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi mynd i'r afael â materion ad-drefnu ysgolion, gan gynnwys y ddarpariaeth ôl-16?

At ei gilydd, mae cynigion yr awdurdod ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn cynnwys rhesymeg glir ac maent yn gyson â'i weledigaeth ar gyfer moderneiddio addysg. Mae ei bolisi strategol newydd a'i gynllun cyflawni yn darparu fframwaith addas ar

² Rhaglen gwrthfwlio yn seiliedig ar ymchwil yw KiVa a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Turku, Y Ffindir, gyda chyllid gan Weinyddiaeth Addysg a Diwylliant y Ffindir

³ Mae rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth Y Blynnyddoedd Rhyfeddol ar gyfer rhieni, athrawon, a phlant yn lleihau ymddygiadau heriol ymhlith plant ac yn cynyddu'u medrau dysgu cymdeithasol ac emosiynol a'u medrau hunanreoli

gyfer datblygu yn y dyfodol, ac yn galluogi swyddogion i fynd i'r afael yn hyblyg â llawer o'r heriau gwahanol yn strwythur yr ysgol. Mae'r heriau hyn yn cynnwys rhesymoli ysgolion uwchradd a chynradd, addysg ôl-16 a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sir. Er ei fod wedi gwneud cynnydd bach o ran ad-drefnu ysgolion cynradd dros gyfnod, nid yw'r awdurdod wedi gallu cyflawni ar nifer o gynigion allweddol yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn dilyn ymgynghoriad i ad-drefnu ysgolion uwchradd yn ne Powys. Mae nifer y lleoedd gwag yn parhau'n rhy uchel ledled y sir.

Mae'r awdurdod yn canolbwyntio'n briodol erbyn hyn ar weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a chymunedau i ystyried modelau amgen o gyflwyno addysg. Mae swyddogion wedi rhoi blaenoriaeth i'r angen i sicrhau dealltwriaeth drylwyr ymhlith rhanddeiliaid allweddol, ac maent wedi miniogi'u defnydd o ddata er mwyn cynorthwyo â gwneud penderfyniadau a chynyddu cyflymder newid. Mae tîm trawsnewid yr awdurdod yn gweithio'n dda i sicrhau bod prosesau ymgynghori yn dryloyw ac wedi'u trefnu'n dda. Fodd bynnag, mae'r prosesau hyn yn rhoi gofynion trwm ar dîm cymharol fach o swyddogion. Mae strategaeth glir gan yr awdurdod i wella ansawdd adeiladau ysgol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o adeiladau ysgol mewn cyflwr gwael.

Mae gweledigaeth hirdymor addas gan yr awdurdod i ddarparu cydraddoldeb o ran darpariaeth ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg ym Mhowys, ac mae amcanion y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2017-2020) yn briodol. Fodd bynnag, mae hanes yr awdurdod o ysgogi twf addysg cyfrwng Cymraeg yn wan. O ganlyniad, mae cyfran y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yr un fath dros y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod yn ymchwilio i ddichonoldeb sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r adolygiad o ysgolion uwchradd yng ngogledd Powys.

Mae'r awdurdod yn cynnig lleoedd addysg cynnar yn benodol mewn lleoliadau nas cynhelir ym Mhowys. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn amcangyfrif bod rhyw 80% i 90% o blant yn elwa ar dderbyn addysg gynnar. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth ddigon clir ganddynt o b'un a oes lleoedd digonol ar gael i blant o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi er mwyn iddynt gael addysg gynnar yn newis iaith eu rhieni neu warcheidwaid. Nid yw'r ddarpariaeth hon ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ychydig o ardaloedd yn yr awdurdod.

Hyd yn ddiweddar iawn, ychydig iawn o gynnydd y mae'r awdurdod wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â heriau addysg ôl-16 ym Mhowys. Mae'r heriau hyn yn cynnwys niferoedd sy'n gostwng yn gyflym o ddysgwyr sydd yn dewis mynychu dosbarthiadau chwech mewn ysgolion, a dewis mynd i goleg neu ysgolion y tu allan i Bowys yn lle hynny. Mae hyn wedi arwain at lefelau sylweddol is o gyllid ar gyfer dosbarthiadau chwech a lleihau'r cwricwlwm a gynigiant. Mae'r awdurdod yn cydnabod yr heriau hyn ac yn ddiweddar iawn mae wedi cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth chweched dosbarth. Ar hyn o bryd, mae arweinwyr wedi cyflwyno achos yn seiliedig ar dystiolaeth dros newid, ac, mewn partneriaeth â phenaethiaid, maent wedi cynnig ystod o atebion tymor byr a thymor hwy i gyflwyno model newydd ar gyfer addysg ôl-16.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Nid yw'r awdurdod lleol wedi gwneud gwelliannau cadarn a chynaliadwy i fynd i'r afael â llawer o'r diffygion a nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol. Mae llawer o'r materion yn parhau yn feysydd pryder sylweddol. Mae argymhellion yn nau adroddiad arolygu diwethaf Estyn (yn 2007 a 2011) yn parhau i fod yn feysydd pryder, fel y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, ac ad-drefnu ysgolion. Yn ogystal, mae'r materion a godwyd yn ystod yr arolygiad hwn yn debyg i'r rhai a godwyd mewn dau adroddiad arolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2012 a 2017. Hefyd, dros y pum mlynedd diwethaf, roedd gormod o ysgolion mewn categori peri pryder i Estyn, ac mae gormod o ysgolion yn parhau â diffygion uchel yn ei balansau. Mae'r awdurdod wedi bod yn rhy araf yn defnyddio ystod lawn ei bwerau i wella ysgolion, eu timau arwain a chyrrff llywodraethol.

Dros y tair blynedd diwethaf, bu newid sylweddol mewn uwch swyddogion, gan gynnwys ar lefel prif weithredwr, cyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaeth. Adeg cynnal yr arolygiad, mae newid pellach mewn uwch swyddi addysg allweddol yn cael eu rhagweld ar gyfer y dyfodol agos. Mae cyfran uchel y newidiadau pwysig mewn personél wedi effeithio ar barhad a chyflawni cynlluniau gweithredu dros gyfnod, ac ar effaith gyffredinol arweinyddiaeth mewn meysydd pwysig o waith yr awdurdod.

Mae gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol gan yr awdurdod lleol, ac mae wedi datblygu ei gynllun gwella corfforaethol Gweledigaeth 2025. Yn y cynllun, mae'r arweinydd a'r prif weithredwr yn amlinellu'u dymuniad i gryfhau dysgu a medrau o fewn yr awdurdod lleol. Mae'r cynllun yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol yn briodol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n rhoi ystyriaeth dda i anghenion lleol plant a phobl ifanc. Mae'r awdurdod wedi gweithio'n dda gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i ddatblygu'r weledigaeth, gyda ffocws cryf ar ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a chyflenwi gwasanaethau.

O fewn cyfnod amser byr, mae'r prif weithredwr sydd newydd ei phenodi wedi deall y prif gryfderau a meysydd i'w datblygu yn dda, ac mae'n realistig ynglŷn â difrifoldeb yr heriau sy'n wynebu'r awdurdod. Mae wedi dod ag egni newydd i fynd i'r afael â meysydd allweddol ac ar gyfer cryfhau'r cydweithio o fewn adrannau'r awdurdod lleol ac ar draws grwpiau aelodau etholedig, ond megis dechrau cael eu datblygu y mae'r rhain.

Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn araf yn datblygu ei drefniadau craffu, a hyd at yn ddiweddar iawn, mae'r her wedi bod yn wan. O fewn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi diwygio'i strwythur craffu i gynnwys tri phwyllgor sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau yn ei gynllun corfforaethol. O fewn ei raglen waith, mae'r pwyllgor craffu dysgu a medrau yn ystyried ystod o faterion perthnasol sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg, fel diwygio'r fformiwla ariannu ar gyfer ysgolion. Erbyn hyn, ceir cynllunio gwell ar y cyd rhwng y cabinet a phwyllgorau craffu i gydlynu rhaglenni gwaith sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus. Mewn cyfarfodydd diweddar, mae aelodau pwyllgorau craffu wedi dechrau herio aelodau'r cabinet a swyddogion yn fwy cadarn, gan ofyn cwestiynau perthnasol a rhesymol ynglŷn â'r wybodaeth a ddarperir. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adroddiadau a gyflwynir gan swyddogion i bwyllgorau craffu yn amrywio, ac mae'r diffyg adrodd gonest wedi golygu nad yw aelodau etholedig, yn gyffredinol, yn gallu gweld difrifoldeb materion a'u goblygiadau.

Yn aml, ceir diffyg manylder digonol mewn adroddiadau i ddarparu craffu gyda hyder fod camau angenrheidiol yn cael eu cymryd.

Mae'r Cabinet yn cynnwys clymblaid o'r grŵp Annibynnol a'r grŵp Ceidwadol, sydd gyda'i gilydd â mwyafrif o aelodau etholedig yr awdurdod lleol. Mae gwaith trawsbleidiol y glymblaid a chyfansoddiad y cabinet yn galluogi'r awdurdod i ddatblygu consensws ehangach. Mae aelodau etholedig yn cydweithio'n dda â swyddogion. Er enghraifft, mae aelodau'n gysylltiedig â gwaith y gwasanaeth addysg trwy ymgysylltu'n rheolaidd â llawer o'r gweithgorau.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu seminarau mynych i aelodau etholedig, ond dros y tair blynedd diwethaf, dim ond ychydig o enghreifftiau sydd wedi bod lle mae seminarau addysg penodol wedi'u cynnal. O ganlyniad, ni cheir digon o gyfleoedd i sicrhau bod gan aelodau etholedig y ddealltwriaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau gwybodus a phennu cyfeiriad strategol yn y maes hwn.

Dros flynyddoedd lawer, mae aelodau etholedig wedi bod yn amharod i gymryd camau ddigon cadarn ar nifer o faterion pwysig, fel mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ôl-16 ac ar ad-drefnu ysgolion uwchradd.

Mae perthynas yr awdurdod lleol gydag ysgolion yn un o gydweithio a chydweithredu yn gyffredinol, ond dros gyfnod, nid yw wedi bod yn ddigon heriol mewn nifer o feysydd pwysig. Er enghraifft, nid yw wedi defnyddio ystod lawn ei bwerau i wneud yn siŵr bod ysgolion sy'n peri pryder yn gwella'n ddigon cyflym.

Nid oes proses hunanwerthuso gadarn a pharhaus gan yr awdurdod lleol ar gyfer ei wasanaethau addysg. Nid yw gwasanaethau addysg yn rhagweithiol o ran defnyddio hunanwerthuso i ysgogi gwelliant, ac mae hyn yn amharu ar eu gallu i ystyried cryfderau neu feysydd pwysig i'w gwella yn ddigon da. Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr wedi datblygu dealltwriaeth well o'r prif faterion sy'n wynebu'r awdurdod lleol, ac mae aelodau etholedig yn dechrau herio perfformiad a mynd i'r afael â sefyllfaoedd difrifol gyda mwy o frwdfrydedd. Fodd bynnag, mae cyflymder gwelliant yn rhy araf o hyd.

Mae cynllunio gwelliant o fewn y gwasanaethau addysg yn wan. Mae cerrig milltir allweddol sy'n gysylltiedig ag amcanion yn rhy eang, ac nid yw adrannau penodol o fewn cynllun y gwasanaeth addysg wedi'u datblygu'n ddigonol. Nid yw lefel addas o sicrhau ansawdd ar lefel gorfforaethol wedi'i chymhwyso i gynllun y gwasanaeth addysg. Er bod gwasanaethau addysg yn cynnal nifer fawr o dargedau perfformiad, nid yw'r rhain bob amser wedi'u cysylltu â'u blaenoriaethau allweddol neu feysydd y mae angen eu gwella. Nid oes gan y gwasanaethau addysg sail resymegol glir ar gyfer gosod targedau. Nid yw'r broses gorfforaethol ar gyfer monitro targedau bob amser yn adnabod diffygion pwysig mewn deilliannau oherwydd ei lefel goddefiant uchel. Nid yw hyn yn cefnogi rheoli risg na chyflymder cynnydd o fewn yr awdurdod lleol. Lle mae adrodd am eithriadau yn digwydd, nid yw camau dilynol wedi'u datblygu'n ddigonol ac nid ydynt yn cynnwys y manylder sydd ei angen i sicrhau gwelliant.

Mae staff yn y gwasanaeth addysg wedi cyfranogi mewn amrywiaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus buddiol i gefnogi'u gwaith. Mae hyn yn cynnwys cyfranogi mewn ymholiad proffesiynol, hyfforddiant amlasiantaeth, cyfranogi mewn gweithgorau cenedlaethol a chyrsgiau wedi'u hachredu'n ffurfiol. O gymharu â gwasanaethau eraill y cyngor, ychydig iawn o staff y gwasanaeth addysg sydd wedi ymgymryd â chyrsgiau sy'n gysylltiedig â'r llwybr arweinyddiaeth. Mae hyn yn arwain at gyfleoedd cyfyngedig i reoli cynllunio olyniaeth arweinyddiaeth o fewn y gwasanaeth.

Mae swyddogion gwella ysgolion yn cysgodi cydweithwyr mewn awdurdodau lleol eraill ac maent yn arolygwyr gweithredol mewn arolygiadau ysgolion a lleoliadau nas cynhelir. Mae hyn yn fuddiol i'w dysgu proffesiynol ac yn gwella'r cymorth a ddarparant i ysgolion a lleoliadau. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol gydag ERW i gefnogi datblygiad proffesiynol ymgynghorwyr her a staff eraill gwella ysgolion.

Yn gyffredinol, nid yw trefniadau rheoli perfformiad mewn addysg yn cael digon o flaenoriaeth. Nid yw'r trefniadau yn cefnogi staff yn ddigon da yn eu datblygiad, i gyfrannu at gyflawni cynlluniau na galluogi rheolwyr i ddwyn staff i gyfrif.

Mae ystod briodol o bolisiâu a gweithdrefnau clir gan yr awdurdod lleol ar gyfer diogelu mewn addysg. Caiff arweinwyr a rheolwyr mewn addysg, arweinwyr diogelu dynodedig, a staff eraill eu cefnogi'n dda gan hyfforddiant priodol, a thrwy gyngor ac arweiniad fel sy'n ofynnol ar sail achos wrth achos. Mae'r awdurdod lleol yn monitro'n fanwl pa mor dda y mae ysgolion yn cynnal gwiriadau cyn penodi ar gyfer staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, nid yw'n monitro recriwtio gwirfoddolwyr yn ddigon trylwyr.

Yn ddiweddar mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno archwiliad hunanwerthuso blynyddol o weithgarwch diogelu ysgolion gan ddilyn model archwilio diogelu Cymru gyfan. Mae ffurflenni'r archwiliad diweddar wedi'u monitro, ac mae meysydd i'w gwella wedi'u nodi. Yn dilyn gwerthuso, bydd y cylch archwilio nesaf yn cynnwys cwestiynau ar gyfer pob ysgol ynglŷn â'i rheolaeth ar recriwtio a phenodi gwirfoddolwyr, ac unrhyw wiriadau cyn penodi.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi blaenoriaeth i'w ysgolion o ran ei ddyraniadau cyllideb refeniw a chyfalaf dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ei fod yn cynnal mwy o ysgolion nag sy'n gynaliadwy, a bod trawsnewid yr ystâd ysgolion yn hollbwysig i wella darparu adnoddau yn ei ysgolion. Er bod yr awdurdod lleol, dros lawer o flynyddoedd, wedi lleihau nifer yr ysgolion y mae'n eu cynnal, mae'r gyfradd newid wedi bod yn rhy araf i gyd-fynd â'r gostyngiad mewn niferoedd disgyblion.

Yn briodol, mae'r awdurdod lleol yn mynnu bod ysgolion yn cynllunio'n ariannol ar gyfer y tymor canolig. Ochr yn ochr â'u dyraniad cyllid blynyddol, mae swyddogion yn darparu dyraniadau dangosol buddiol i ysgolion ar gyfer y tair neu bedair blynedd nesaf. Mae ysgolion, yn eu tro, yn cynhyrchu cyllidebau drafft, gan eu helpu i gynllunio unrhyw newidiadau angenrheidiol yn eu staffio a thynnu sylw'r awdurdod at y potensial ar gyfer problemau yn y dyfodol.

Mae'r gwaith diweddar o ddiwygio fformiwla'r awdurdod lleol ar gyfer dirprwyo cyllid i ysgolion wedi'i arwain yn dda, a chan mwyaf, mae wedi cynnwys ymgynghoriad wedi'i strwythuro'n briodol gydag ysgolion. Mae'r fformiwla newydd wedi'i seilio'n gadarn ar egwyddorion cwricwlaidd ac egwyddorion perthnasol eraill, ac mae'n dod â mwy o dryloywder i'r broses o ddyrannu cyllid i ysgolion o Ebrill 2019.

Mae diffyg effaith yr awdurdod lleol wrth wella ansawdd rheolaeth ariannol mewn ychydig o ysgolion, am flynyddoedd lawer, wedi bod yn destun beirniadaeth mewn adroddiadau arolygu ac archwilio. Er y gwnaed gwelliant sylweddol yn ystod 2018-2019 yn lefel balansau ysgolion, mae rheolaeth ariannol mewn ychydig o ysgolion yn parhau'n faes pryder nad eir i'r afael ag ef yn ddigonol mewn cynllunio o fewn y gwasanaeth addysg. Mae'r diffyg her effeithiol yn hanesyddol i ansawdd rheolaeth ariannol mewn ysgolion wedi arwain at nifer fach o ysgolion yn methu ymadfer o ddifffygion ariannol am flynyddoedd lawer, yn groes i Gynllun Ariannu Ysgolion yr awdurdod lleol. Mewn nifer fach iawn o ysgolion, mae maint eu diffygion ariannol wedi tyfu mor fawr fel nad yw ymadfer o fewn yr uchafswm o bum mlynedd, fel sy'n ofynnol gan y Cynllun, yn ymarferol mwyach.

Mae'r awdurdod lleol bellach yn gyson a systematig o ran penderfynu p'un ai i drwyddedu diffygion ariannol, a, lle bo angen, cyflwyno hysbysiadau rhybuddio. Fodd bynnag, mae amharoddrwydd yr awdurdod lleol i ddefnyddio'i bwerau ymyrryd i fynd i'r afael â materion ariannol mewn achosion eithafol wedi gwaethygu'r broblem yn yr ysgolion hynny, ac mae'n adlewyrchu gwendidau mewn arweinyddiaeth gorfforaethol. Mae aelodau etholedig yn trafod materion yn ymwneud â chyllid addysg yn fynych. Fodd bynnag, nid yw'r papurau briffio a ddarparwyd iddynt gan swyddogion yn gyson glir wrth egluro darlun cymhleth a dynamig yn aml.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/09/2019